Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Department for Economy, Skills and Natural Resources

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC Cadeirydd,
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
d/o committeebusiness@wales.gsi.gov.uk

21 Gorffennaf 2017

Annwyl Gadeirydd

**Cyllid a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i Kancoat**

Mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 29 Mehefin.

Fel yr eglurwyd yn fy llythyr dyddiedig 31 Mai, mae prosiect Kancoat yn dod o dan y codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) sy'n helpu i ddiffinio'r sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch. Fel y nodwyd yn y gorffennol, y cod SIC perthnasol yw 2561 − trin ac araenu metelau, gan gynnwys lacro ac araenu metelau. Roedd prosiect Kancoat yn ymwneud â chynhyrchu stribedi o ddur a thunplat a oedd wedi'u lacro ymlaen llaw, ac felly roedd angen gwybodaeth fanwl am fetelau ac am ddulliau araenu a thaenu. Roedd y prosiect, felly, yn bodloni'r diffiniad o'r sector.

O ran pa gwmnïau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, rheini fyddai'r holl godau SIC eraill a restrir. Mae codau SIC a disgrifiadau o sectorau yn pennu'r prif flaenoriaethau. Nid ydynt yn gwahaniaethu rhwng yr hyn yr ystyrir ei fod yn 'uwch' a'r hyn nad yw'n cael ei gyfrif yn 'uwch'. Mae'r holl sectorau'n arfer hyblygrwydd wrth gynnig cymorth busnes. Y Pennaeth Datblygu Busnes a / neu Bennaeth y Sector sy'n penderfynu bwrw ymlaen ag ymholiadau am gymorth, ac maent yn ystyried amryfal ffactorau, gan gynnwys amgylchiadau'r cwmni unigol, y math o brosiect, yr amgylchedd busnes, ac a yw'r prosiect yn cyd-fynd yn strategol â blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

Yn gywir

Mick McGuire
Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes



Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 061 5691
mick.mcguire@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.llyw.cymru